



200
1822 - 2022



Y Sefydliad Cytgord
The Harmony Institute



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Profiadau Cyfriniol: Ddoe a Heddiw

Cynhadledd y Ganolfan Ymchwil i Brofiadau Crefyddol 2022


Cefnogir gan Ymddiriedolaeth Alister Hardy a Chymdeithas Ddysgedig Cymru

9 Gorffennaf 2022, yn Theatr Cliff Tucker, Llambed

(hefyd i'w ffrydio ar-lein)

Prif anerchiad: Yr Athro Rowan Williams, Caergrawnt

The Soul and the Trinity in Julian of Norwich



Rhaglen

-10 a.m.-

Croeso

Yr Athro Bettina Schmidt, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil i Brofiadau Crefyddol

Yr Athro Medwin Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Yr Athro John Harper, Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Alister Hardy

-10.20 a.m.-

Darlith Llambod Alister Hardy

Yr Athro Rowan Williams, Prifysgol Caergrawnt

The Soul and the Trinity in Julian of Norwich

-11.40 a.m.-

Yr Athro Lisa Isherwood, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Margery Kempe: God's wild housewife!

-12.30 – 2.00 p.m.- EGWYL GINIO

-2.00 – 4.30 p.m.-

Yr Athro Ron Geaves, Prifysgol Caerdydd

The "Inmost Heart" of Islam

Yr Athro Marta Helena de Freitas, Prifysgol Gatholig Brasilia - UCB

Brazilian psychotherapists' narratives about mystical experiences in clinical contexts

Yr Athro Bettina Schmidt, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Rudolf Otto and a reflection on mystical experiences during the Covid-19 pandemic

Crynodebau a bywgraffiadau

Yr Athro Rowan Williams, Prifysgol Caergrawnt

The Soul and the Trinity in Julian of Norwich

Crynodeb:

Mae Julian yn deall bod ei datguddiadau yn ei galluogi i adnabod ei hun a'r greadigaeth mewn perthynas â Duw. Yn y papur hwn byddaf yn trafod sut mae ei hiaith hynod drawiadol am y Drindod yn caniatáu iddi ail-ddychmygu bywyd yr enaid yng nghyd-destun awydd yn ogystal â deallusrwydd.

Bywgraffiad byr:

Rowan Williams, y Barwn Williams o Ystumllwynarth, PC, FBA, FRSL, FLSW, oedd cant a phedwerydd Archesgob Caergaint cyn iddo ddod yn dri deg pumed Meistr Coleg Magdalene. Wedi'i addysgu yng Ngholeg Crist, Caergrawnt, astudiodd am ei ddoethuriaeth yng Ngholeg Eglwys Crist a Choleg Wadham Rhydychen, gan weithio ar y diwinydd Uniongred Rwsiaidd, Vladimir Lossky. Dechreuodd ei yrfa fel darlithydd ym Mirfield (1975-1977) cyn dychwelyd i Gaergrawnt ac yn ddiweddarach i Rydychen fel Athro yr Arglwyddes Margaret mewn Diwinyddiaeth. Wedi hynny daeth yn Esgob Mynwy, ac, o'r flwyddyn 2000, yn Archesgob Cymru. Yn 2002, daeth yn Archesgob Caergaint, y 104ydd person i ddal y swydd.

Ymhlith ei anrhydeddau niferus mae gradd uwch Doethur mewn Diwinyddiaeth o Rydychen yn 1989, gradd DCL er anrhydedd yn 2005; DD er anrhydedd o Gaergrawnt yn 2006, a nifer o ddoethuriaethau eraill er anrhydedd. Yn 1990 fe'i etholwyd yn Gymrawd yr Academi Brydeinig, yn 2003 yn Gymrawd y Gymdeithas Lenyddiaeth Frenhinol ac yn 2010 yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Yn ogystal, mae'n fardd a chyfieithydd barddoniaeth nodedig, ac, ar wahân i'r Gymraeg, mae'n siarad neu'n darllen naw iaith arall. Dysgodd Rwsieg er mwyn darllen gweithiau Dostoevsky yn y gwreiddiol. Arweiniodd hyn at lyfr; mae hefyd wedi cyhoeddi astudiaethau ar Arius, Teresa o Avila, a Sergii Bulgakov, ynghyd ag ysgrifennu ar ystod eang o themâu diwinyddol, hanesyddol a gwleidyddol.

Yr Athro Lisa Isherwood, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Margery Kempe: God's wild housewife!

Crynodeb:

Yn ôl y farn gonfensiynol roedd Margery yn fenyw hysteraidd, a pharanoïd yn ôl pob tebyg, a oedd yn chwilio am sylw. Fodd bynnag, drwy leisiau ffeministaidd a *queer*, mae safbwyntiau eraill yn dod i'r amlwg sy'n ailasesu ei bywyd ac yn gofyn beth y gallai hi ei gynnig i ni heddiw. Yn Margery gwelwn fenyw a oedd wedi'i thrwytho yng nghonfensiynau crefyddol ei hoes a thrwy ddefnyddio'r rhain yn ei ffordd rwysgfawr ei hun ehangodd ei byd a'r ymdeimlad o'r dwyfol.

Bywgraffiad byr:

Mae'r Athro Lisa Isherwood yn Ddiwinydd rhyddhad Ffeministaidd, ac fel diwinydd rhyddhad mae'n credu bod diwinyddiaeth yn brosiect cymunedol a ysgogir gan syniadau o gydraddoldeb radical ac a rymusir gan gwmnïaeth ddwyfol. Mae ei gwaith yn archwilio natur ymgnawdoliad o fewn cyd-destun cyfoes ac yn cynnwys meysydd megis y corff, rhywedd, rhywioldeb ac eco-ddiwinyddiaeth. Mae wedi ysgrifennu, cyd-ysgrifennu neu olygu 26 o lyfrau ac mae'n Olygydd Gweithredol y cyfnodolyn rhyngwladol 'Feminist Theology' [Sage] ac mae'n aelod o fwrdd golygyddol rhyngwladol y Journal of Feminist Studies in Religion (UDA). Yn 2010 roedd yn Is-lywydd y Gymdeithas Ewropeaidd i Fenywod mewn Ymchwil Diwinyddol.

Yr Athro Ron Geaves, Canolfan Astudio Islam yn y DU, Prifysgol Caerdydd

The "Inmost Heart" of Islam

Crynodeb:

Bydd y papur yn ymdrin â pham mae Sufiaeth yn parhau i fod wrth galon Islam. Ceir asesiad byr o wreiddiau Sufiaeth, ac yna ffocws ar y dysgeidiaethau hanfodol, gydag enghreifftiau o farddoniaeth cyfrinwyr blaenllaw. Eir ymlaen i gynnal asesiad o Sufiaeth fel crefydd fyw, sy'n parhau i weithredu fel "calon ddofn " Islam mewn llawer o wledydd Mwslimaidd, ar yr ymylon ac yn y Dwyrain Canol. Daw'r papur i ben gyda chrynodeb o'r rheswm pam y mae'r byd academiaidd wedi'i arwain i gredu bod Sufiaeth naill ai'n dirywio neu wedi'i wahanu oddi wrth brif ffrwd Islam.

Bywgraffiad byr:

Ar hyn o bryd mae Ron Geaves yn dal Cadair wadd er anrhydedd yn y Ganolfan Astudio Islam yn y DU sydd wedi'i lleoli yn yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Cyn hynny mae wedi dal Cadeiriau mewn Crefydd ym Mhrifysgol Caer a Phrifysgol Hope Lerpwl. Er y 1980au mae wedi bod yn ymchwilio i'r sefydliad crefyddol a'r adrannau sectyddol a gyflwynwyd gan fudwyr Mwslimaidd i'r byd gorllewinol, gan ysgrifennu amdanynt ac arsylwi ar eu trawsnewidiadau. Bu'n canolbwyntio ar draddodiadau Sufi byw, addysg grefyddol Islamaidd a hanes cynnar cynnull Mwslimiaid ym Mhrydain. Mae ei weithiau'n cynnwys *Sectarian Influences within Islam in Britain* (1994), *Sufis in Britain* (2000), *Islam and the West Post 9/11* (2004), *Aspects of Islam* (2005), *Islam Today* (2010), *Islam in Victorian Britain: The Life and Times of Abdullah Quilliam* (2010), *Sufis of Britain* (2014), ac *Islam and Britain: Muslim Mission in the Age of Empire* (2017). Yn ddiweddar mae wedi golygu *The Poetry of Abdullah Quilliam* ar y cyd â Yahya Birt (2021).

Yr Athro Marta Helena de Freitas, Prifysgol Gatholig Brasilia – UCB, Brasil

Brazilian psychotherapists' narratives about mystical experiences in clinical contexts

Crynodeb:

Mae'r papur yn egluro sut y mae seicotherapyddion Brasil yn delio â phrofiadau cyfriniol eu cleifion yn ystod sesiynau clinigol. Mae'n seiliedig ar gyfweiliadau manwl gyda seicotherapyddion ynglŷn â'u canfyddiadau a'u profiadau o ran crefyddoldeb ac ysbrydolrwydd eu cleifion. Mae'r ffocws ar y cwestiwn sut y maent yn delio â phrofiadau cyfriniol o ran iechyd meddwl. Bydd y papur hefyd yn trafod y duedd i batholegu'r profiadau cyfriniol a dadansoddi'r meini prawf a ddefnyddir gan y seicotherapyddion i gysylltu profiadau cyfriniol, ysbrydol neu grefyddol a symptomau seicopatholegol, a gwahaniaethu rhyngddynt.

Bywgraffiad byr:

Mae Marta Helena de Freitas yn Athro ym Mhrifysgol Gatholig Brasilia - UCB, er 1989. Mae'n seicolegydd â gradd Meistr mewn Seicoleg Gymdeithasol a Seicoleg Personoliaeth ac mae ganddi PhD mewn Seicoleg o Brifysgol Brasília. Mae'n Ôl-Ddoethur mewn Seicoleg Crefydd ym Mhrifysgol Caint, Caergaint, ac mewn Seicoleg Diwylliant ym Mhrifysgol Oporto, Portiwgal, ac mewn Anthropoleg Crefydd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Ymhlith ei phynciau ymchwil mae: seicoleg crefydd, angeueg, gerontoleg, seicodiagnosteg Rorschach, ffenomenoleg, hyfforddiant mewn seicoleg ac iechyd meddwl. Mae'n aelod o Gymdeithas Ryngwladol Seicoleg Crefydd – IAPR, a hefyd o Bwyllgor Brasil Cynghrair MIL UNESCO.

Yr Athro Bettina Schmidt, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Rudolf Otto and a reflection on mystical experiences during the Covid-19 pandemic

Crynodeb:

Yn *The Idea of the Holy*, dadleuai Rudolf Otto fod y teimlad o'r dwyfol yn ffenomenon byd-eang ac nad yw wedi'i gyfyngu i unrhyw grefydd, diwylliant nac amser. Yn seiliedig ar ganfyddiad Otto o'r dwyfol, mae'r papur yn myfyrio ar brofiadau a gafodd pobl yn ystod y pandemig diweddar tra'n brwydro yn erbyn Covid-19. Gan dynnu sylw at rai o themâu cyffredin y naratifau, mae'r papur yn dangos sut roedd pobl yn dehongli Covid-19 fel haint ysbrydol a oedd yn heintio'r byd.

Bywgraffiad byr:

Bettina E. Schmid, DPhil (habil.), PhD, MA, Athro mewn Astudio Crefyddau ac Anthropoleg Crefydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ei phrif feysydd o ddiddordeb ymchwil yw crefyddau, hunaniaeth a lles America Ladin a'r Caribî. Mae ei diddordebau academaidd yn cynnwys profiad crefyddol, anthropoleg crefydd, alltudiaeth, ac anthropoleg feddygol. Ymhlith ei chyhoeddiadau pwysicaf mae *Spirit and Trance in Brazil: An Anthropology of Religious Experiences* (2016, Bloomsbury), *Caribbean Diaspora in the USA: Diversity of Caribbean Religions in New York City* (2008, Ashgate), *Handbook of Contemporary Brazilian Religions* (golygwyd gyda Steven Engler, 2016, Brill) a *Spirituality and Wellbeing: Interdisciplinary approaches to the study of religious experience and health* (golygwyd gyda Jeff Leonardi, 2020, Equinox).

